**PWYLLGOR ARCHWILIO AC ADOLYGU GWASANAETHAU CORFFORAETHOL**

**10 Tachwedd 2021**

Yn bresennol: Cynghorydd D Clements (Cadeirydd)
Cynghorydd P Baker, Dr R Heath-Davies, Mrs S Hoss, Cynghorydd M James, Mr G Jones, Cynghorydd R Owens a'r Cynghorydd M Williams.

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am-11.30am; 11.40am -12.35pm)

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriad am fod yn absennol oddi wrth y Cynghorydd P Kidney.

2. **Datgan Buddiannau**
Nid oedd unrhyw un wedi datgan buddiant.

3. **Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 14eg o Fai 2021 i'w cadarnhau a'u dilysu.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 14eg o Fai 2021.

4. **Adroddiad Archwilio Mewnol 2021/22**
Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i Jonathan Maddock o TIAA, Archwilwyr Mewnol yr Awdurdod. Eglurodd Mr Maddock bod ei adroddiad mewn sawl rhan - Adroddiad Cryno ar Sicrwydd ynghylch Rheolaethau Mewnol, ynghyd ag adolygiadau o'r Strategaeth Rheoli Ystadau a'r Strategaeth Technoleg Gwybodaeth - ac arweiniodd yr Aelodau drwy'r dogfennau.

Dywedwyd bod Rheoli Ystadau wedi cael sicrwydd sylweddol, gydag ond un argymhelliad i ddatblygu Strategaeth Ystadau trosfwaol, tra bod y Strategaeth TG wedi cael sicrwydd rhesymol gydag argymhellion y dylid cymeradwyo'r Strategaeth TG ddrafft yn ffurfiol, a bod y ffrydiau gwaith oedd wedi'u clustnodi yn y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2020/21 yn cael eu blaenoriaethu i alluogi gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau TG oedd ar gael gan yr Awdurdod.

O ran y Strategaeth Ystadau, holodd un Aelod a gynigir bod y Strategaeth yn cynnwys dulliau'r Awdurdod o gyrraedd y targedau datgarboneiddio, neu a fyddai hynny wedi'i gynnwys mewn dogfen ar wahân. Atebodd y Prif Weithredwr gan y byddai'r agenda datgarboneiddio yn ganolog i holl

waith yr Awdurdod, byddai'r strategaeth a ddatblygir yn ymgorffori datgarboneiddio. Roedd gwaith ychwanegol i lywio'r broses o gynhyrchu'r strategaeth wedi'i gomisiynu, a byddai hyn yn cael ei rannu gyda'r Aelodau maes o law.

Mynegodd nifer o Aelodau bryder ynghylch yr awgrym nad oedd digon o adnoddau gan y Tîm TG i gynnal y ffrydiau gwaith a glustnodwyd yn y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau. Atebodd y swyddogion bod aelod ychwanegol o staff wedi'i recriwtio yn ddiweddar er mwyn cynorthwyo gyda'r newid i Microsoft 365 gan fod hyn yn brosiect allweddol i'r Awdurdod ar hyn o bryd. Unwaith y byddai'r dasg gyfredol o glustnodi blaenoriaethau'r Awdurdod wedi'i chwblhau, gellid dyrannu'r adnoddau TG yn unol â hynny, a'r Tîm Arweinyddiaeth wedyn i ystyried unrhyw ddiffygion yn yr adnoddau. Fodd bynnag, dywedodd y Prif Weithredwr y gallai fod yn rhaid gohirio rhai prosiectau nes bod modd neilltuo adnoddau priodol.

Gan droi at yr adroddiad Cryno ar Sicrwydd ynghylch Rheolaethau Mewnol, eglurodd Mr Maddock bod yr adroddiad yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar y materion oedd yn ymwneud â llywodraethu, risg a rheolaeth fewnol, a gwaith yr Archwilydd Mewnol hyd yn hyn yn erbyn y Cynllun Archwilio Blynyddol. Nodwyd y byddai'r adolygiad o Reoli Risg yn cael ei ystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ac y byddai'n cael ei gyflwyno ar ffurf drafft i'r Gweithdy ar Reoli Risg oedd i'w gynnal ar 17 Tachwedd 2021. Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi nad oedd unrhyw argymhellion blaenoriaeth 1 angen talu sylw iddynt ar hyn o bryd.

Holodd un Aelod am y nodiadau briffio a gynhyrchwyd gan TIAA ar ddatblygiadau mewn llywodraethu, risg a rheolaeth, fel y'u rhestrwyd yn Atodiad C i'r adroddiad, a gofynnodd pam fod rhai o'r rhain yn y categori coch. Atebodd Mr Maddock bod dangosyddion coch yn arwydd y dylai'r Awdurdod gymryd camau ar y materion hynny, ac ychwanegodd bod rhai Awdurdodau yn rhoi diweddariad i'r Aelodau i roi sicrwydd bod y gwaith wedi'i wneud a bod y risg wedi'i lleihau. Dywedodd y swyddogion bod camau wedi'u cymryd lle roedd angen gweithredu, ond gofynnwyd fodd bynnag bod diweddariad, yn nodi pa gamau a gymerwyd, yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Diolchodd yr Aelodau i Mr Maddock am ei adroddiad.

**NODWYD.**

**5. Adroddiad ar Berfformiad y Gyllideb am y 6 mis hyd at Medi 2021**

Roedd adroddiad y Rheolwr Cyllid yn nodi'r gyllideb refeniw net fanwl ar gyfer y chwe mis hyd at fis Medi 2021 oedd yn dangos bod y gwariant gwirioneddol ac ymrwymedig yn £2,193k, sef £544k (19.9%) o dan y

gyllideb broffiliedig. Roedd y prif resymau am yr amrywiant yn y gwariant gwirioneddol yn erbyn y gyllideb ar gyfer pob adran gwasanaeth wedi'u nodi yn yr adroddiad.

Roedd disgwyl i'r sefyllfa refeniw a ragwelwyd ar gyfer diwedd blwyddyn 2021/22 ddangos gwarged gweithredol o £595k, yn erbyn dim gwarged yn y gyllideb wreiddiol. Roedd yr amrywiant hwn yn bennaf oherwydd bod yr incwm yn y canolfannau a'r incwm o'r meysydd parcio yn uwch na'r hyn a gyllidebwyd.

Roedd y rhaglen gyfalaf wedi cynyddu o'r gyllideb wreiddiol oherwydd y grant gan Lywodraeth Cymru o dan eu cynllun Lleoedd Cynaliadwy Tirweddau Cynaliadwy, a phrosiectau a gariwyd ymlaen o'r flwyddyn ariannol flaenorol. Roedd manylion y prosiectau a ariannwyd wedi'u nodi yn yr adroddiad.

Gan droi at Gronfeydd Wrth Gefn yr Awdurdod, dywedwyd bod disgwyl i'r Gronfa Wrth Gefn gyffredinol barhau ar £1,008k ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol, a'r gwarged a ragwelir am y flwyddyn yn cael ei ddefnyddio i greu cronfeydd wrth gefn ychwanegol wedi'u clustnodi. Disgwylir i'r Cronfeydd Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf barhau ar £370k.

Gan ddiolch i'r Rheolwr Cyllid am adroddiad clir a chadarnhaol, holodd un Aelod am y gwersi ar gyfer cyllideb y flwyddyn nesaf, gan gwestiynu a ddylid cynnwys rhai prosiectau o fewn y cyllid craidd lle barnwyd eu bod o bwysigrwydd parhaus i waith yr Awdurdod. Dywedodd y Rheolwr Cyllid bod y Grant Parc Cenedlaethol wedi gostwng, ac y byddai'n parhau i ostwng, ac na ellid gwarantu derbyn cyllid grant. Fodd bynnag, byddai'r tueddiadau hyn yn derbyn sylw yn y gweithdy ar y gyllideb y mis nesaf. Ychwanegodd y Prif Weithredwr ei fod yn ystyried a ddylid cyfuno rhai prosiectau â rolau'r staff parhaol fel rhan o'r gwaith cyfredol ar flaenoriaethau'r Awdurdod.

Gan nodi'r tanwariant yn y flwyddyn gyfredol yn yr adran Rheoli Datblygu a achoswyd gan y cynnydd mewn incwm ffioedd, awgrymodd Aelodau eraill y dylid cyflogi staff gorfodi ychwanegol, gan fod cydymffurfio â'r amodau cynllunio yn faes allweddol y barnwyd yr Awdurdod arno. Cytunodd y Prif Weithredwr i gael gair gyda'r Cyfarwyddwr ac Arweinydd y Tîm Rheoli Datblygu ar y mater hwn, ond rhybuddiodd bod sawl adran o'r Awdurdod yn wynebu heriau yn yr amgylchedd sydd ohoni ac y gallai cynnydd mewn un adran arwain at doriadau mewn adran arall gan fod cyflogi staff ychwanegol â goblygiadau tymor hwy.

Roedd y cwestiynau eraill yn ymwneud ag incwm y meysydd parcio, ac eglurodd y Rheolwr Cyllid bod yr incwm 'Gweithrediadau Meysydd Parcio' yn amlygu derbyniadau o docynnau tymor. Bu peth trafodaeth ynghylch

diffyg signal ffôn symudol mewn rhai lleoliadau oedd yn golygu nad oedd rhai pobl yn medru defnyddio'r ap 'Talu dros y Ffôn' i dalu am eu tocyn maes parcio, a gofynnwyd a allai opsiynau eraill o dalu â cherdyn gael eu hystyried. Atebodd y swyddogion bod y gost o osod llinellau tir i bob peiriant talu a dangos yn ormodol, ond yn gyffredinol roedd cyflwyno 'Talu dros y Ffôn' wedi cael derbyniad da, yn enwedig y cydweithredu â Chyngor Sir Penfro oedd yn defnyddio'r un system. Cytunodd y Prif Weithredwr i siarad â'r swyddog perthnasol i weld a oedd unrhyw opsiynau eraill. Y gobaith hefyd oedd y byddai'r cwmnïau ffonau symudol yn parhau i fynd i'r afael â'r sefyllfa o ran signal gwael.

Yn olaf, holodd yr Aelodau ynghylch yr oedi cyn derbyn y cerbydau trydan yr oedd yr Awdurdod wedi'u harchebu, ac a oedd hyn yn peri unrhyw risg. Atebodd y swyddogion eu bod yn cysylltu â'r cyllidwyr grantiau a'r gwneuthurwyr, a'r disgwyl oedd y byddai'r cerbydau wedi cyrraedd cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**NODWYD.**

**6. Cofrestr Risg**

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y Gofrestr Risg ddiweddaraf, oedd wedi'i hadolygu gan y Tîm Arweinyddiaeth. Amlygwyd y prif newidiadau o'r adroddiad blaenorol, a nodwyd y byddai Gweithdy yn cael ei gynnal yr wythnos ganlynol pan ellid trafod y gofrestr yn fanylach gyda'r holl Aelodau.

Cododd yr Aelodau nifer o gwestiynau ynglŷn â'r risgiau, gan gynnwys y rhai oedd yn gysylltiedig â'r risg sylweddol o ostyngiad mewn cyllid (Risg 2), gyda'r gair sylweddol yn cael ei gwestiynu, a oedd geiriad y risg o ran y Clefyd Coed Ynn yn cyfleu natur barhaus y risg (Risg 37), yr anawsterau o liniaru effaith COVID (Risg 38), a geiriad y risg newydd a ychwanegir i amlygu'r newidiadau a wneir ar hyn o bryd i'r system TG (Risg 42). Awgrymwyd hefyd y dylid ystyried risg newydd sy'n ymwneud â methu â chyrraedd Sero Net erbyn 2030. Cyfeiriodd un Aelod at bwysigrwydd Risg 9 o ran colli tir yn yr ardaloedd arfordirol o ganlyniad i effaith tymor hir y newid yn yr hinsawdd, oherwydd natur arfordirol y Parc Cenedlaethol.

Atebodd y swyddogion eu bod yn ystyried bod y risg o ostyngiadau yn y cyllid yn y dyfodol yn risg sylweddol, ond byddent yn edrych ar eiriad y risgiau eraill a amlygwyd.

**NODWYD.**

[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 11.30 a 11.40am.]

**7. Adroddiad ar y Perfformiad yn y Cyfnod yn diweddu 30 Medi 2021**

Roedd yr adroddiad perfformiad yn dilyn strwythur y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau ar gyfer 2020/21. Roedd y Cynllun hwn yn dilyn dulliau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sydd â saith o amcanion llesiant, ac adran ychwanegol sy'n cyflwyno gwybodaeth gyffredinol am lywodraethu. Roedd y gweithgareddau oedd yn ymateb i'r adferiad ar ôl Covid 19 wedi'u prif-ffrydio yn y ffrydiau gwaith o dan pob un o'r Amcanion Llesiant.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r perfformiad hyd at 30 Medi 2021 o ran data misol ac ystadegau chwarter 1 i chwarter 2 (Ebrill – Medi) ar gyfer ystadegau chwarterol. Amlygwyd perfformiad nifer o feysydd gwaith, a thynnodd y Cydlynydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth sylw at wall argraffyddol o dan y pennawd Prosiectau Llesiant, lle'r oedd y prosiect yn ymwneud â'r 1000 Diwrnod Cyntaf, nid 100.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddog am adroddiad cynhwysfawr, ac roeddent yn falch o weld bod gwaith yr Awdurdod yn dechrau dychwelyd i ryw fath o normalrwydd, yn dilyn y pandemig COVID.

**NODWYD.**

[Cyflwynodd y Cynghorydd P Baker ei ymddiheuriadau a gadawodd y cyfarfod adeg ystyried yr adroddiad canlynol.]

**8. Adroddiad Adnoddau Dynol**

Roedd yr adroddiad, a gyflwynwyd gan y Prif Weithredwr yn absenoldeb y Rheolwr AD, yn rhoi manylion am yr amrywiol ddangosyddion Iechyd a Diogelwch, llesiant, ac adnoddau dynol ar gyfer y chwarter, gyda chymhariaeth â chwarteri blaenorol os ar gael. Roedd hefyd yn crynhoi gwaith yr adran o ran datblygu polisïau a phrosiectau eraill.

Atebodd y Prif Weithredwr nifer o gwestiynau'r Aelodau ynghylch adrodd am ddigwyddiadau fu bron â digwydd, cynllunio olyniaeth, absenoldeb salwch, ac iechyd a diogelwch, a rhoddwyd sicrwydd yn ogystal bod yr holl wiriadau statudol ar ddiogelwch adeiladau o ran y pwynt olaf hwn wedi'u gwneud, fel y gwelwyd yn yr adroddiad Archwiliad Mewnol yn ddiweddar (y cyfeirir ato yng nghofnod 4). Fodd bynnag, gellid paratoi tabl cryno ar gyfer y cyfarfod nesaf.

**NODWYD.**

**9. Cyflwyniad ar y modd y mae'r Awdurdod wedi agor ei safleoedd yn ddiogel a chyflwyno mesurau i weithredu protocolau a gofynion COVID**

Roedd y cyflwyniad hwn, gan Reolwr Gwasanaethau Ymwelwyr y Gogledd, yn canolbwyntio ar y mesurau a'r trefniadau yng Nghastell Henllys. Fodd bynnag, dywedodd bod prosesau tebyg ar waith yng Nghaeriw ac yn Oriel y Parc. Roedd y cyflwyniad yn amlygu'r gwaith a wnaed, a'r mesurau a roddwyd yn eu lle drwy wahanol gamau'r pandemig, gyda'r asesiadau risg yn cael eu hadolygu'n gyson, a'r addasiadau yn cael eu gwneud i'r safle er mwyn rheoli'r risg i'r tîm ar y safle ac i'r cyhoedd. Dywedwyd bod y safle bellach wedi ail-agor yn llawn, gyda rhaglen gyfyngedig i ysgolion, a gweithgareddau a digwyddiadau eraill, yn bennaf yn yr awyr agored. Roedd system archebu wedi'i chyflwyno ar ddechrau'r pandemig ac roedd hyn wedi bod o gymorth i'r tîm. Roedd yr adborth wedi bod yn gadarnhaol ar y cyfan ac roedd y rhan fwyaf o bobl yn hapus i gydymffurfio â'r gofynion i archebu tocynnau, gwisgo masgiau ac i gadw pellter cymdeithasol.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddog am gyflwyniad cynhwysfawr, ac roedd nifer ohonynt oedd â phrofiad personol o ymweld â'r safle, wedi canmol y staff a'r mesurau diogelwch a roddwyd yn eu lle. Awgrymodd un bod naws ac awyrgylch y safle wedi gwella oherwydd y niferoedd cyfyngedig a ganiateir. Fodd bynnag, cwestiynwyd a oedd gan hyn oblygiadau i ddyfodol y safle. Dywedodd y Rheolwr bod y gofyniad i'r cyhoedd archebu tocynnau ymlaen llaw wedi rhoi gwell gwybodaeth ynghylch y nifer fyddai'n bresennol bob dydd ac yn caniatáu gwell rheolaeth ar nifer y staff, ac felly y costau. Diolchodd y Cadeirydd i'r timau Gwasanaethau Ymwelwyr ar draws pob safle am eu gwaith caled.

**NODWYD.**

**10. Dirprwyo unrhyw faterion i'w hystyried gan y Grŵp Gwelliant Parhaus**

**PENDERFYNWYD** nad oedd unrhyw faterion oedd yn peri pryder yr oedd y Pwyllgor yn dymuno eu dirprwyo i'r Grŵp Gwelliant Parhaus i'w hystyried.

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2022 heb eu diwygio. |